**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd ar nos Lun, Chwefror 12fed, 2024 am 7.30 y.h. yn Neuadd Rhoshirwaun**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Dewi Evans (yn gweithredu fel clerc dros dro), Mari Evans, Wil Evans, Dafydd Myrddin, Emlyn Jones, Jaci Jones, Nesta Roberts, Tim Rosa, Wenda Williams

**Yn y Gadair:** Y Cynghorydd Robert Williams

**1) Ymddiheuriadau a Datgan Diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gwenllian Haf, Dafydd Williams a Gareth Williams (Y Cyngor Sir)

**2) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd:** Nid oedd cyhoeddiadau.

**3) Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun, Ionawr 8fed, 2024**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4) Materion yn codi o'r cofnodion**

*i) Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau*

**a. Gor-yrru'r Rhiw**

Bu'r Cynghorydd Gareth Williams yn gohebu ymhellach â'r Cyngor Sir ynghylch y posibilrwydd o gael arwyddion arafu traffig yn y Rhiw, ond oherwydd sefyllfa ariannol y Cyngor, ni welai y byddai unrhyw arian ar gael ar eu cyfer, ond y gellid holi eto tua diwedd Awst neu Fedi.

**b. Addurniadau dros ben o'r Eisteddfod Genedlaethol**

Yn ateb i ymholiad ynghylch y rhain, cadarnhawyd fod yr Adran Briffyrdd wedi casglu nifer ohonynt, a bod eraill yn cael eu casglu eraill fel y cânt eu darganfod. Gofynnir i ni amlygu unrhyw leoliadau o bryder.

**c. Llwybr ger Tŷ Tan Fron**

Bu'r Adran Llwybrau yn holi ynghylch y cais cynllunio gerllaw'r llwybr cyhoeddus er mwyn sicrhau na fydd dim yn tarfu arno. Addawyd diweddariad.

**ch. Y postyn o flaen Bodarfor**

Derbyniwyd gohebiaeth bellach ynghylch y mater ond eglurwyd na fyddai trafodaeth bellach ar y pwnc yn y Cyngor Cymuned.

**d. Trwsio'r ffordd ger Morfa Mawr, Bryn a Rhwng Rhiwlas a Salfur**

Mae'r tyllau bellach wedi cael sylw.

**dd. Conau wedi eu gadael yn gyson yn y pentref**

Bydd swyddog o'r Adran Briffyrdd yn gohebu gydag unrhyw berchennog i ofyn iddynt dynnu'r conau pan nad oes galw amdanynt.

*ii) Materion yr Eglwys Newydd*

Araf iawn fu datblygiadau, yn rhannol oherwydd fod tywydd drwg yn arafu prosiectau eraill yr adeiladwyr. Bu gohebu pellach â Gallaghers, ac â chwmni'r Tŵr, gosodwyr y sgaffaldiau, a chafwyd addewid y gosodid sgaffaldiau yn fuan.

*iii) Y Fynwent*

Bu'r cynghorwyr Robert Williams a Nesta Roberts yn bwrw golwg ar y safle a bu Nesta yn parhau i gael gwell trefn ar gofnodion y claddedigaethau.

*iv) Swydd y clerc*

Hysbysebwyd y swydd eto ar wefan Cyngor Gwynedd, a derbyniwyd dau gais. Cafwyd sgwrs gyda'r ddau ymgeisydd ar Chwefror 6ed, 2024 gyda phum cynghorydd yn bresennol. Wedi adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn penderfynwyd penodi Phillip Hughes, Chwilog i'r swydd gyda'r cytundeb yn dechrau ar Fawrth 1af.

**5) Gohebiaethau**

Derbyniwyd gwahoddiad gan Fenter Iaith Gwynedd i weithdy ym Motwnnog ar Chwefror y 3ydd i drafod sut i gynyddu defnydd y Gymraeg yn yr ardal ac i sicrhau dyfodol llewyrchus iddi, ond gohiriwyd y cyfarfod tan Chwefror 27ain.

Cafwyd apeliadau am gyfraniad ariannol gan bwyllgor apêl Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (gan mai Sir Gaernarfon fydd sir nawdd y Sioe Frenhinol yn 2025) a chan Glybiau Ffermwyr Ifanc Eryri sydd yn cynnal llawer o ddigwyddiadau yn yr ardal. Trafodir apeliadau ariannol o'r fath yng nghyfarfod mis Mawrth.

Mynegwyd pryder ynghylch y gostyngiad sylweddol sydd wedi bod yn y gwelyâu ar gael i gleifion yn Ysbyty Gwynedd, a gyrrwyd i gyfleu hynny i'r Aelod Cynulliad. Derbyniwyd cadarnhad fod y llythyr wedi ei dderbyn.

Daeth ymholiad a oedd caniatâd mynd â chŵn i fynwentydd y gymuned. Atebwyd fod arwyddion yn gwahardd hynny mewn ambell fynwent, ac mai barn y Cyngor oedd na ddylid eu caniatáu er parch i'r ymadawedig a'u teuluoedd.

Hysbyswyd ni fod arian ar gael i gynghorau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fynychu gweminarau hyfforddiant ar 'TG, Gwefannau a Chyfryngau Cymdeithasol.' Awgrymwyd efallai y byddai gan y clerc newydd ddiddordeb yn hyn.

Gwahoddwyd aelodau'r Cyngor i ddigwyddiad ar y cyd rhwng Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru ar ddydd Iau, Mawrth 7.

*Unrhyw ohebiaeth arall*

Derbyniwyd gohebiaeth fod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus drwy Ogledd Cymru er mwyn i'r cyhoedd godi unrhyw bryderon â swyddogion ac Aelodau Bwrdd Betsi Cadwaladr, a bwriadai rhai o aelodau'r Cyngor fynychu'r cyfarfod ym Mangor ar 11fed o Fawrth.

Derbyniodd y Cynghorydd Gareth Williams ohebiaeth gan Uwch Swyddog Traethau Cyngor Gwynedd ynghylch y treial o osod bwiau melyn yn y bae yn ystod yr haf gydag offer trymach i geisio eu sefydlogi drwy'r tymor.

Er treblu pwysau'r angorau a defnyddio cadwyn gref, ni fedrodd y rhain wrthsefyll y tywydd drwg, a chollwyd 4 casgliad o offer, ar gost o oddeutu £220 yr un, heb ystyried costau cludo, casglu a gosod, ac nid oedd y drefn yn gynaladwy ym marn y swyddog, ac ni ragwelai y gosodid y bwiau yn 2024. Mynegwyd siom ynghylch hyn, ac awgrymwyd y gellid fod wedi tynnu'r bwiau ynghynt ar ddechrau Medi. Penderfynwyd gofyn eto a ellir gosod ychwaneg o gerrig ger y lanfa heibio i'r maes parcio.

Bu'r Cynghorydd Wenda Williams mewn cysylltiad â Ross Hemmings i drafod trefnu hyfforddiant diffibrilwyr ym mis Ebrill neu Fai. Bwriedir cynnal y cyfarfod yn Aberdaron. Wedi trefnu lle ac amser bydd poster yn cael ei baratoi i wahodd aelodau o'r cyhoedd yno.

**6) Cynllunio**

C24/0011/30/AM - Bodernabwy, Aberdaron, LL53 8BH. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais amlinellol. Os datblygir y safle, gofynnir i'r Cyngor Sir ystyried gosod pafin rhwng y datblygiad a'r ffordd fawr.

**7) Ariannol**

*Taliadau*

| | |
|---|---|
| Emlyn Jones am daliad i Defib World | £144.19 |
| Nesta Roberts | £12.56 (CCTV trwy S/O Ionawr) |
| Donald Insall (Eglwys Newydd) | £900 |
| Trwsio'r CCTV | £144 |
| Ffioedd banc HSBC | £6.20 |

*Derbyniadau*

| | |
|---|---|
| G. W. Parry | £435 (£40 yn fyr) |
| (Angladd Heulwen Roberts / Gwilym Roberts / Mrs Durrant) | |
| Ifan Hughes | £225 |
| (Agor bedd, a charreg Gareth Hughes) | |

**8) Materion ffyrdd a llwybrau**

Mae twll ger y fynedfa i Bryn Llan, Rhoshirwaun

Nid oedd y ffos wedi ei hagor at y tro ger Bryn Eiddon, ac mae'r dŵr yn dal i gasglu yno.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar nos Lun, 11fed o Fawrth, 2024**

**yn Neuadd y Rhiw.**